Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Waun Dew

**Heol y Prior**
**Caerfyrddin**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA31 1HF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parc Waun Dew

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Parc Waun Dew |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 210 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 144 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 35 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn sector Cynradd yw 21.3%) | 34.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn sector Cynradd yw 22.2%) | 55.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 13.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | Hydref 2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/06/2022 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae arweinwyr yr ysgol wedi datblygu diwylliant cadarnhaol o waith tîm ymhlith y staff a'r gymuned leol. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn gofal, ac yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer teuluoedd. Mae hyn yn bwysig oherwydd ystod eang yr anghenion a lefelau symudedd uchel teuluoedd o fewn y gymuned a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi monitro gwaith yr ysgol yn ddigon gofalus. O ganlyniad, nid ydynt wedi sicrhau bod gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer dysgu a chynnydd disgyblion. Mae gormod o addysgu a gormod o'r profiadau dysgu nad ydynt yn cynorthwyo disgyblion i wneud y cynnydd y gallent ei wneud. Nid yw arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r agwedd hanfodol hon ar waith yr ysgol yn ddigon da.

Mae disgyblion yn Ysgol Gynradd Parc Waun Dew yn ymddwyn yn dda. Maent yn trin ei gilydd yn deg a gyda pharch. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gydag oedolion ac yn ymddiried ynddynt i weithredu er eu lles pennaf bob amser. Mae'r ysgol yn croesawu dysgwyr o'r ardal leol a'r byd ehangach ac yn sicrhau eu bod yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned yr ysgol.

Pan fydd y disgyblion ieuengaf yn ymuno â'r ysgol, yn aml, mae angen llawer o gymorth arnynt i ddysgu. Mae'r ysgol yn diwallu eu hanghenion yn llwyddiannus fel eu bod, ar ôl cyfnod cymharol fyr yn yr ysgol, yn mwynhau dysgu ac yn dechrau gwneud cynnydd da yn y rhan fwyaf o agweddau ar eu datblygiad. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Gwnânt gynnydd cryf tuag at eu nodau dysgu unigol. Mae hyn o ganlyniad i waith meddylgar, medrus ac effeithiol yr oedolion sy'n eu cynorthwyo trwy raglenni ymyrraeth ac yn nosbarth arbenigol yr ysgol, sef Dosbarth Dyfed.

Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, mae cyflymdra eu datblygiad fel dysgwyr yn arafu. At ei gilydd, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd mewn datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae hyn oherwydd nad yw'r addysgu a'r profiadau dysgu, yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, yn cynorthwyo nac yn herio disgyblion yn ddigon da i wneud y cynnydd y gallent ei wneud.

## Argymhellion

A1 Gwella arweinyddiaeth a sicrhau bod prosesau gwerthuso yn canolbwyntio ar nodi'r gwahaniaeth y mae addysgu a phrofiadau dysgu'n ei wneud i gynnydd disgyblion

A2 Gwella addysgu ac asesu, yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6

A3 Gwella'r cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol

A4 Mynd i'r afael â'r broblem ddiogelu a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig o ran yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Pan fyddant yn ymuno â'r ysgol i ddechrau, mae medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth llawer o ddisgyblion yn is na'r hyn a fyddai fel arfer yn ddisgwyliedig am eu hoedran. Mae'r disgyblion ieuengaf hyn yn mynd ati'n dda i ddysgu ac yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau a'u hagweddau cadarnhaol fel dysgwyr. Maent yn cynnal y cynnydd hwn yn y rhan fwyaf o agweddau ar ddysgu trwy gydol Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. At ei gilydd, mae disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran datblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae hyn o ganlyniad i'r diffyg her mewn gwersi a gweithgareddau a methiant arweinwyr i nodi problemau yn ansawdd yr addysgu.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson o ran eu nodau dysgu unigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn Nosbarth Dyfed, sef dosbarth adnoddau arbenigol yr ysgol, yn gwneud cynnydd da â datblygu eu medrau cyfathrebu. Maent yn magu hyder i gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Mae disgyblion sy'n ymuno â'r ysgol o wledydd ledled y byd yn ymgyfarwyddo â bywyd ysgol yn gyflym ac yn gwneud cynnydd cyflym fel dysgwyr, ac mewn siarad Saesneg.

Mae disgyblion yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn ymgymryd yn dda â phrofiadau dysgu. Maent yn awyddus ac yn hyderus i roi cynnig ar bethau newydd, dan do ac wrth ddysgu yn yr awyr agored. Maent yn mentro'n ofalus, er enghraifft i ddatblygu eu medrau corfforol wrth reidio beiciau balansio. Maent yn cydweithredu'n dda â ffrindiau, er enghraifft i ddatrys problemau fel sut i gludo pêl trwy diwb. Maent yn dewis adnoddau yn annibynnol ac yn cynnal diddordeb mewn gweithgareddau am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn datblygu medrau cyfathrebu effeithiol. Maent yn siarad yn hyderus, er enghraifft i esbonio sut maent wedi cyfuno rhifau i ffurfio cyfanswm. Gwnânt gynnydd addas mewn deall a dechrau defnyddio'r Gymraeg. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol fel rhan o'u gwaith creadigol, er enghraifft i berfformio cân am fwyta'n iach. Mae disgyblion unigol yn defnyddio Makaton yn llwyddiannus i gyfleu eu teimladau neu ddilyn cyfarwyddiadau.

Mae mwyafrif o ddisgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn defnyddio eu medrau siarad yn briodol i gyflwyno'u dysgu, er enghraifft mewn cyflwyniadau digidol i ddisgrifio nodweddion Caerfyrddin i blant yn America. At ei gilydd, mae disgyblion o fewn yr ystod oedran hon yn gwneud cynnydd cyfyngedig o ran siarad Cymraeg. Nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn frwdfrydig, yn hyderus na gyda digon o annibyniaeth.

Mae disgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn gwneud cynnydd priodol â'u medrau ysgrifennu cynnar. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau â chreu marciau syml gan ddefnyddio bysedd, ac yn symud ymlaen yn raddol at ddefnyddio offer fel brigau i greu marciau mewn tywod. Dros gyfnod, mae hyn yn datblygu i ffurfio llythrennau a geiriau adnabyddadwy, y maent yn dechrau eu cyflwyno fel brawddegau, er enghraifft i gyfansoddi barddoniaeth. Fodd bynnag, prin yw'r

cyfleoedd i'r disgyblion hyn ysgrifennu'n annibynnol. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae datblygiad medrau ysgrifennu disgyblion wedi'i gyfyngu gan ddisgwyliadau athrawon ac ystod y cyfleoedd a gânt. Mae hyn yn amlwg iawn mewn tasgau annibynnol, pan ofynnir i ddisgyblion ysgrifennu rhestrau sylfaenol iawn o gyfarwyddiadau, er enghraifft sut i chwythu balŵn. Ailadroddir y math hwn o weithgarwch ar draws yr ystod oedran yn rhy aml. Nid yw athrawon yn sicrhau bod gwaith ysgrifenedig disgyblion yn datblygu'n raddol dros gyfnod. O ganlyniad, mae cynnwys a chywirdeb gramadegol ysgrifennu disgyblion yn rhy amrywiol. Pan roddir cyfle iddynt, mae ychydig o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig da, er enghraifft pan fyddant yn ysgrifennu at ddibenion dilys, fel denu ymwelwyr i Gaerfyrddin.

Mae llawer o ddisgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn datblygu agweddau cadarnhaol at lyfrau a darllen. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau a rhannu llyfr gyda ffrindiau. Dros gyfnod, maent yn datblygu strategaethau addas i ddarllen testun syml yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan fwyafrif o ddisgyblion fedrau darllen priodol. Maent yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth addas. Maent yn disgrifio rôl cymeriadau mewn storïau, yn adrodd am ddigwyddiadau yn dda ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol am beth allai ddigwydd nesaf. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu ystod ddigon eang o strategaethau i ddarllen yn effeithiol i gefnogi eu dysgu. Mae hyn yn gysylltiedig ag ansawdd y ddarpariaeth, nad yw'n ddigon heriol. Mae disgyblion yn treulio gormod o amser ar dasgau deall ar lefel isel yn hytrach na datblygu medrau fel rhesymu, dod i gasgliad neu'r gallu i grynhoi testunau.

Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn mewn datblygu eu medrau rhif. Defnyddiant adnoddau ffisegol yn dda i gyfrif ac adio rhifau. Dros gyfnod, maent yn ymestyn eu gwybodaeth i greu brawddegau rhif ysgrifenedig ar gyfer adio a thynnu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod ac yn enwi siapiau dau ddimensiwn ac yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o gymesuredd. Mae disgyblion unigol yn amcangyfrif yn briodol gan ddefnyddio mesurau ansafonol, er enghraifft faint o gregyn neu fwclis fydd eu hangen arnyn nhw i falansio darn o ffrwyth. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau mathemategol sylfaenol. Mae disgyblion mwy abl yn gweithio'n briodol gyda rhif ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wneud cyfrifiadau fel lluosi hir. Maent yn cymhwyso ychydig o fedrau'n dda yn annibynnol, er enghraifft i gyfrifo canrannau cyfansymiau. At ei gilydd, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhesymu rhifiadol yn ddigon da oherwydd diffyg cyfle. Er enghraifft, maent yn cael gwybodaeth sylfaenol o graffiau ond anaml y maent yn dadansoddi neu'n dehongli data yn fanwl.

Ar draws yr ysgol, ac yn enwedig o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau digidol. Maent yn defnyddio codio yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac yn datblygu dealltwriaeth addas o sut i gofnodi a chyflwyno data. Mae disgyblion mwy abl yn defnyddio medrau wedi'u cyfuno yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn ymgorffori testun, graffeg a'u gwaith ysgrifenedig yn eu cyflwyniadau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol â datblygu eu medrau creadigol, er enghraifft trwy gynhyrchu gwaith celf yn arddull Ruth Jên Evans a Steve Jenks.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol, ac yn garedig a pharchus at oedolion ac at ddisgyblion eraill. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein ac yn gallu esbonio pam mae hyn yn bwysig.

Mae bron pob un o’r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael gofal yn yr ysgol, ac yn gwybod y gallant droi at rywun yn hawdd os byddant yn poeni am unrhyw beth. Maent yn gwneud defnydd rheolaidd o ap ble maent yn mynegi eu teimladau’n ddiogel, os byddant yn dewis gwneud hynny, yn ystod y diwrnod ysgol. Mae’r disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol i reoli eu hemosiynau yn gwneud cynnydd da yn yr agwedd hon ar eu datblygiad. Maent yn elwa’n dda ar ystod y cymorth a gânt.

Mae Cymuned Croeso yn cynnwys disgyblion sydd wedi ymuno â’r ysgol yn ddiweddar. Maent yn datblygu ymdeimlad o berthyn i’w hysgol, a balchder ynddi, yn gyflym. Maent yn cyflawni eu rôl yn dda; er enghraifft, maent yn mwynhau’r cyfrifoldeb i ddangos ymwelwyr o gwmpas yr ysgol ar ôl elwa ar brofiad tebyg pan gyrhaeddon nhw yr ysgol am y tro cyntaf. Mae grwpiau eraill fel y llysgenhadon chwaraeon yn cynorthwyo disgyblion iau i fwynhau chwarae egnïol yn ystod amseroedd egwyl. Hefyd, maent yn gweithio i wella ymglymiad disgyblion ag anableddau mewn gweithgareddau amser egwyl. Trwy eu rhyngweithio â’r amgylchedd a’r profiadau dysgu, mae disgyblion iau yn dangos i oedolion sut a beth yr hoffent ei ddysgu. Mae disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn dechrau gwneud cyfraniadau sylfaenol at eu dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud dewisiadau am beth maent yn ei ddysgu a sut, nac yn dewis sut hoffent gyflwyno’u gwaith yn rheolaidd.

Cynhelir diwrnodau arbennig i ddathlu hawliau ac amrywiaeth a’r gwahanol ieithoedd a siaredir yn yr ysgol. Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau cymryd rhan yn yr achlysuron hyn. Mae disgyblion o gefndiroedd amrywiol yn gwerthfawrogi’r ffaith fod pawb yn cael eu trin yr un fath gan oedolion a disgyblion, ni waeth beth yw eu nodweddion neu gredoau. Mae disgyblion yn archwilio amrywiaeth yn llwyddiannus fel rhan o’u dysgu. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae disgyblion wedi ysgrifennu gweddi ysgol aml-ffydd newydd, sy’n cynnwys pawb.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o sut i gadw’n iach a heini. Maent yn siarad yn wybodus am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae disgyblion ym Mlwyddyn 2 yn nodi sawl gram o siwgr sydd mewn gwahanol ddiodydd ac yn arbrofi i weld beth sy’n digwydd pan roddir ŵy mewn cola. Roeddent wedi’u harswydo gan y ffordd yr oedd lliw’r wy wedi newid dros nos, ac yn awr, gallant esbonio pam mae diodydd siwgraidd yn wael i’w dannedd. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dewis brwsio’u dannedd yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu gwaith, ac yn dangos brwdfrydedd a mwynhad yn eu dysgu, yn enwedig o’r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn datblygu dyfalbarhad trwy weithgareddau datrys problemau, er enghraifft wrth adeiladu cuddfan. Er bod disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn aml yn parhau i weithio ar dasg yn gydsyniol, yn rhy aml, maent yn mynd yn oddefgar yn eu dysgu oherwydd diffyg her.

Nid ydynt yn datblygu eu gwydnwch a'u dyfalbarhad yn ddigon da, o ganlyniad i ddiffyg cyfleoedd a ddarperir.

Yn sgil pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad).

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn rheoli ymddygiad disgyblion yn sensitif. Fodd bynnag, nid yw addysgu a phrofiadau dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn sicrhau cyfraddau cynnydd digon da. Yn rhy aml, mae athrawon yn canolbwyntio ar gynllunio gweithgareddau sy'n cadw disgyblion yn brysur yn hytrach nag ar nodi beth mae angen iddynt ei ddysgu mewn gwirionedd.

Mae'r cwricwlwm ac addysgu o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn diwallu anghenion disgyblion yn dda, ar y cyfan, ac yn eu cynorthwyo i wneud cynnydd cryf, yn aml o fannau cychwyn isel, pan fyddant yn ymuno â'r ysgol i ddechrau. Mae staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion a diddordebau disgyblion, ac yn defnyddio hyn yn dda i drefnu eu darpariaeth a chynllunio profiadau dysgu.

Ceir darpariaeth effeithiol i ddatblygu medrau personol a chymdeithasol, iaith a chyfathrebu, rhifedd a medrau digidol disgyblion iau. Mae athrawon a staff cymorth yn cefnogi dysgu'n fedrus trwy gyfuniad cytbwys o addysgu â ffocws a chyfleoedd i chwarae a dysgu trwy brofiadau. Mae adnoddau, tasgau a'r amgylchedd dysgu yn ennyn ac yn cynnal diddordeb disgyblion yn dda. Mae staff yn defnyddio'r awyr agored yn dda, er enghraifft i gefnogi datblygiad corfforol disgyblion. Mae ymagwedd yr ysgol yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn y dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn gwneud cynnydd da, ar y cyfan, o'u mannau cychwyn unigol.

Yn gyffredinol, mae staff sy'n gweithio gyda disgyblion o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2 yn meddu ar wybodaeth bynciol dda. Er enghraifft, maent yn deall sut i ddatblygu medrau rhif disgyblion iau ac agweddau ar eu medrau ysgrifennu cynnar yn raddol. Maent yn modelu dysgu a chwarae yn effeithiol ac yn sicrhau bod cyd-destunau ar gyfer dysgu, fel testun bwyta'n iach a siop chwarae rôl, yn cysylltu'n dda â diddordebau a phrofiadau disgyblion. Mae staff yn defnyddio strategaethau i gynorthwyo disgyblion sy'n gweld cyfathrebu yn heriol yn sensitif ac yn effeithiol. Maent yn cynorthwyo disgyblion i ymgysylltu'n bwrpasol â phrofiadau dysgu. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd i ymestyn dealltwriaeth disgyblion trwy holi, ac mewn ychydig o achosion, mae datblygiad disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn digwydd yn arafach gan fod oedolion yn darparu gormod o gymorth neu strwythur.

Mae profiadau dysgu ar gyfer disgyblion yn Nosbarth Dyfed yn ysgogol a difyr. Mae sesiynau rhyngweithiol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion fod yn chwilfrydig, datblygu eu medrau corfforol a rhyngweithio â'u cyfoedion a staff i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Ar draws yr ysgol, mae'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau disgyblion yn briodol. O Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6, mae disgyblion yn aml yn cael cyfleoedd i ddefnyddio amrywiaeth o fedrau wedi'u cyfuno, er enghraifft fel rhan o'u cyflwyniadau digidol. Mewn ychydig o achosion, mae athrawon yn paru lefel yr her o fewn y tasgau digidol hyn i allu disgyblion yn dda, er enghraifft mewn gweithgareddau codio. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i heriau digidol. Cawsant gydnabyddiaeth am eu gwaith i gyflwyno dehongliad digidol o Gaerfyrddin.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn darparu dewislen addas o destunau diddorol i ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o destunau yn defnyddio treftadaeth ardal yr ysgol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae athrawon yn creu cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am hanes Afon Tywi trwy brosiect 'Cwrwgl'. Mae athrawon yn defnyddio deunyddiau difyr i ddal sylw er mwyn denu disgyblion i fod eisiau dysgu, er enghraifft wrth lansio testun newydd am y Celtiaid. Maent yn chwilio am ychydig o gyfleoedd gwerthfawr i gyfoethogi profiadau creadigol, er enghraifft trwy ymglymiad artist graffiti lleol, Steve Jenks. Mae disgyblion wedi copïo'i waith ac wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch p'un ai celf neu fandaliaeth yw graffiti. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailgyflwyno ymweliadau addysgol. Mae teithiau i leoedd fel Castell Henllys a Chastell Caerfyrddin yn ymestyn profiadau dysgu yn llwyddiannus.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am wahanol ddiwylliannau, ffydd ac amrywiaeth, a'u dathlu. Maent yn ymgorffori diwylliant ac amrywiaeth yn eu haddysgu yn briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio mamwlad aelodau o'u dosbarth fel symbyliad i ddysgu am wahanol grefyddau, ac yn mwynhau cyfleoedd i wneud bwydydd o bob cwr o'r byd, a'u blasu. Trwy'r cwricwlwm, caiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i ddysgu am sut i fyw bywyd iach ac egnïol.

Er bod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn darparu ychydig o gyd-destunau diddorol ar gyfer dysgu, nid yw'r ffordd y mae athrawon yn ei gyflwyno yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu'n ddigon da ar eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol. Ar hyn o bryd, nid oes dealltwriaeth glir o sut mae'r cwricwlwm yn ffitio gyda'i gilydd fel taith ddysgu gydlynus. Treulir gormod o amser cwricwlwm ar weithgareddau lefel isel fel lliwio neu ysgrifennu rhestrau sylfaenol. Mae'r gweithgareddau hyn yn llenwi amser, mae diffyg pwrpas iddynt, ac nid ydynt yn gwneud rhyw lawer i gymell disgyblion neu'u symud ymlaen yn eu dysgu. Yn gyffredinol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel ar gyfer cynnydd disgyblion ac nid ydynt yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a Chymraeg yn raddol mewn gwersi a thros gyfnod. Oherwydd y diffygion hyn, mae cyflymdra'r dysgu'n rhy araf.

Nid yw ymagwedd yr ysgol at gyflwyno lefel raddedig o her i ddisgyblion yn diwallu anghenion yn ddigon effeithiol. Yn aml, mae adborth ysgrifenedig a llafar yn rhy gadarnhaol, ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i wella. Mae athrawon yn defnyddio holi yn briodol, er enghraifft fel rhan o'u cyflwyniad i wersi. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio holi'n ddigon da i ddyfnhau neu ymestyn dysgu. At ei gilydd, nid yw athrawon bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn maen nhw eisiau i ddisgyblion ei ddysgu. Nid yw'r trefniadau presennol i drefnu profiadau dysgu a datblygu disgyblion fel dysgwyr annibynnol yn gweithio'n dda. O ganlyniad, nid yw disgyblion ar draws yr ystod gallu o Flwyddyn 3 i Flwyddyn 6 yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad effeithiol ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd ac aelodau staff. Mae staff yn hyrwyddo caredigrwydd a pharch yn llwyddiannus ymhlith disgyblion a'r gymuned ehangach. Roedd hyn yn hynod bwysig yn ystod y pandemig diweddar. Ers dychwelyd i'r ysgol, mae staff wedi parhau i flaenoriaethu lles eu disgyblion ac maent yn darparu cymorth gwerthfawr i'w galluogi i gymryd rhan mewn dysgu. Mae disgyblion yn Nosbarth Dyfed yn derbyn gofal eithriadol o dda gan staff, a lles pennaf pob disgybl sydd wrth wraidd yr hyn a wnânt. Mae hyn yn llywio eu penderfyniadau tra ystyriol am ddarpariaeth a chymorth.

Mae staff yn gweithio'n galed i sefydlu a chefnogi perthnasoedd gweithio cryf gyda rhieni. Er enghraifft, maent yn defnyddio gweminarau a chwisiau i ennyn diddordeb rhieni ym mhrofiadau dysgu disgyblion. Mae hyn yn annog rhieni i gymryd rôl weithredol yn nysgu a datblygiad eu plentyn. Yn ychwanegol, mae staff yn arwain gweithdai defnyddiol ar-lein i ddatblygu gallu rhieni i gynorthwyo'u plant. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau ar sut mae'r ysgol yn addysgu ffoneg a darllen.

Yn ddiweddar, nodwyd bod yr ysgol yn lloches i bawb i gydnabod y gwaith mae staff wedi'i wneud i ddarparu gofod diogel ac anogol ar gyfer disgyblion. Mae gofodau fel y 'Cwtsh' a 'Gardd Gudd' yn cynnig darpariaeth werthfawr i ddysgwyr wella'u lles mewn lleoedd diogel a thawel.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n croesawu disgyblion o bob rhan o'r byd, ac yn eu cynorthwyo i ymgynefino'n gyflym a datblygu ymdeimlad o berthyn. Mae gwasanaethau am wahanol grefyddau yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o wahanol ffydd a diwylliannau eraill yn llwyddiannus. Mae aelodau staff yn annog disgyblion i ystyried safbwyntiau pobl eraill yn sensitif, i gydnabod a pharchu amrywiaeth a meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch. Mae rhieni'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae disgyblion yn croesawu'r rhai o wahanol ddiwylliannau a chenedligrwydd fel bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg o'r newydd pan fyddant yn ymuno â'r ysgol yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff hynod fedrus yn cyflwyno ystod eang o ymyriadau sy'n gwneud newid cadarnhaol a pharhaus i les disgyblion a'u gallu i ddysgu a ffynnu. O ganlyniad, erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at nodau unigol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i nodi a diwallu anghenion ychwanegol disgyblion. Mae ei gwaith gydag ystod eang o asiantaethau allanol yn fuddiol. Mae cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn canolbwyntio'n briodol ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a beth allai fod yn gweithio'n well i gynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion ddeall buddion ffordd iach o fyw. Ceir digonedd o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn chwaraeon, gweithgareddau yn yr awyr agored a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn mwynhau gallu dringo coed a siglo o'r barrau yn eu hardal chwarae yn yr awyr agored. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailgyflwyno teithiau ac ymweliadau ar gyfer disgyblion i gefnogi'r

cwricwlwm a helpu creu cyffro ac ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Mae cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol trwy eu rolau mewn amrywiaeth o grwpiau llais y disgybl.

Mae gan yr ysgol ystod gynhwysfawr o strategaethau a phrosesau i hyrwyddo a monitro presenoldeb. Caiff absenoliaeth barhaus ei monitro, ac eir i'r afael â hyn yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cyffredinol cryf. Mae staff yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i gadw dysgwyr yn ddiogel trwy'r ethos y maent yn ei hyrwyddo a'r profiadau dysgu y maent yn eu darparu. Fodd bynnag, tynnwyd sylw'r tîm at fân broblem ddiogelu yn ystod yr arolygiad gan yr ysgol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arweinwyr yn sicrhau bod Ysgol Gynradd Parc Waun Dew yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar les disgyblion a staff. Maent wedi datblygu ymdeimlad cryf o waith tîm ac wedi ymrwymo i helpu disgyblion newydd i ymgyfarwyddo â bywyd yn yr ysgol. Mae hyn yn bwysig oherwydd lefelau uchel symudedd teuluoedd o fewn y gymuned a'r ysgol.

Mae'r pennaeth a'i thîm wedi gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i sefydlu gweledigaeth addas i gefnogi datblygiad lles disgyblion a chreu amgylchedd cynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oes gweledigaeth strategol ddigon clir ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu sy'n cael ei deall gan bob aelod o staff. Nid yw arweinwyr wedi cyfleu disgwyliadau digon uchel ymhlith pob aelod o staff ynghylch ansawdd yr addysgu a'r dysgu neu'r ddarpariaeth ar gyfer medrau. Yn ychwanegol, nid ydynt wedi cynllunio'n ddigon gofalus i sicrhau gwelliannau mewn agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn cynnal rhaglen addas o weithgareddau i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys ystyried ystod briodol o dystiolaeth uniongyrchol fel edrych ar waith disgyblion a gwrando ar safbwyntiau disgyblion. Fodd bynnag, yn eu gwaith gwerthuso, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr effaith a gaiff addysgu a'r ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion o ran datblygu a chymhwyso gwybodaeth, medrau neu ddealltwriaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar allu arweinwyr i gynllunio'n fanwl gywir i sicrhau gwelliannau. Er enghraifft, nid ydynt wedi nodi diffygion pwysig mewn addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn benodol, ac nid oes digon o ffocws yn y cynlluniau ar gyfer datblygu cwricwlwm yr ysgol neu nid ydynt yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod addas o ddysgu proffesiynol ar gyfer staff sy'n canolbwyntio ar wella lles, addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gwerthuso'r gwaith hwn yn ddigon da. Yn benodol, nid ydynt yn ystyried yr effaith a gaiff y gwaith hwn ar ansawdd y ddarpariaeth mewn ystafelloedd dosbarth neu'r cynnydd a wna disgyblion. O ganlyniad, mae wedi cael effaith gyfyngedig ar wella ymagweddau athrawon at ddylunio'r cwricwlwm, ansawdd yr addysgu neu'u disgwyliadau o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogwyr awyddus a brwd i'r ysgol. Maent yn manteisio ar eu cryfderau a'u harbenigedd ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n briodol, er

enghraifft trwy sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer bwyta'n iach. Mae'r pennaeth yn darparu adroddiadau rheolaidd ac yn eu hysbysu am agweddau fel lles disgyblion, diogelu a safle'r ysgol. Fodd bynnag, ni roddir digon o wybodaeth neu wybodaeth ddigon cywir iddynt am gynnydd disgyblion, ansawdd yr addysgu neu ymagwedd yr ysgol at gyflwyno'r cwricwlwm. O ganlyniad, nid ydynt yn dwyn arweinwyr i gyfrif yn ddigon da am welliannau yn ymwneud â'r agweddau hyn ar waith yr ysgol.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yn briodol ac wedi adfer diffyg yn y gyllideb yn llwyddiannus dros y tair blynedd ddiwethaf. Maent yn adolygu gwariant yn rheolaidd ac yn cymryd camau addas lle mae angen. Fodd bynnag, mae ychydig o benderfyniadau a wnaed i leihau costau wedi rhoi pwysau ychwanegol ar arweinwyr yr ysgol, ac mae hyn wedi rhwystro eu gallu i werthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn briodol i ariannu ystod addas o gymorth ar gyfer datblygiad emosiynol disgyblion bregus.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd ac yn fuddiol gyda rhieni. Fe wnaethant gadw mewn cysylltiad agos â'u disgyblion a chymuned yr ysgol ehangach trwy gydol y cyfnodau clo a orfodwyd. Ceir amrywiaeth o ffyrdd buddiol i rieni ddylanwadu ar waith yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor rhieni wedi cynorthwyo ysgolion i wneud newidiadau i wella'r wybodaeth a gânt yn ystod cyfarfodydd rhieni.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  15/08/2022